Polisi Addysgu, Dysgu ac Asesu Grŵp CAVC

Ymrwymiad

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn dysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Cwmpas a Diben y Polisi

Diben y polisi hwn yw darparu fframwaith ar gyfer creu dysgu, addysgu ac asesu rhagorol ar draws Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro ym mhob agwedd ar y cwricwlwm, cefnogaeth a darpariaeth. Mae'r Grŵp yn gwerthfawrogi dysg ac yn cydnabod bod dysgu yn digwydd mewn nifer o sefyllfaoedd, boed yn ffurfiol neu anffurfiol. Rydym yn hwyluso dysg at ddibenion academaidd, galwedigaethol, cymdeithasol a phersonol mewn ystod eang o ddisgyblaethau ar bob lefel i ddysgwyr o gefndiroedd cymdeithasol a diwylliannol amrywiol.

Yn ei holl weithgareddau, dyhead y Grŵp yw bod yn sefydliad dysgu lle mae'r holl aelodau, dysgwyr a staff yn ymroddedig i'w dysg eu hunain a dysg eraill. Rydym eisiau sicrhau bod dysgwyr sy'n astudio ar draws y Grŵp yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau ac arferion dysgu rhagorol sy'n arwain atynt yn cwblhau eu hastudiaethau yn llwyddiannus, sicrhau gwaith ystyrlon a chynaliadwy, mynd ymlaen i Addysg Bellach neu Uwch ac ymrwymiad i Ddysg Gydol Oes.

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r broses ddysgu, addysgu ac asesu fod yn systematig a chefnogol. Rhaid iddi ymgorffori asesu fel rhan o'r broses ddysgu yn hytrach na chynnyrch gorffenedig. Yn sail i'r polisi hwn mae'r Safonau Proffesiynol, y 5 Agwedd Sylfaenol ar Ddysgu (gweler Atodiad 1) a gweithdrefnau Ansawdd amrywiol sydd wedi'u seilio ar welliant parhaus ym mhob gweithgaredd dysgu, addysgu ac asesu.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddysgwyr ar bob rhaglen ddysgu waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff sydd mewn swydd addysgu, dysgu ac asesu neu gefnogi dysg yn y Grŵp.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.

Rhif Adolygu:	1
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2020
Dyddiad Adolygu Newydd:	Gorffennaf 2020

Datganiadau'r Polisi

Mae'r Grŵp yn ymrwymedig i:

- Ddatblygu polisïau a gweithdrefnau o ansawdd i sicrhau bod ansawdd addysgu, dysgu ac asesu ar draws y Grŵp yn uchel. Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau bod ein perfformiad yn cael ei fonitro'n effeithiol yn ogystal â strategaethau i wella perfformiad yn ôl yr angen.

- Bod ar flaen datblygiadau mewn dulliau gweithredu addysgol i addysgu, dysgu ac asesu.

- Sicrhau bod yr holl staff yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol i sicrhau addysgu, dysgu ac asesu mor effeithiol â phosibl. Bydd y datblygiad proffesiynol hwn wedi'i seilio ar egwyddorion ymchwil weithredol ac ymarfer myfyriol.

- Casglu adborth gan ddysgwyr a rhanddeiliaid mewn perthynas ag ansawdd addysgu, dysgu ac asesu.

- Rhannu arferion da ar draws y Grŵp ac yn allanol drwy Golegau Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.

- Darparu adnoddau o safon uchel i ddysgwyr, gan gynnwys adnoddau galwedigaethol safonol y diwydiant a'r rheiny sy'n cefnogi datblygiad digidol effeithiol lle mae hynny'n angenrheidiol.

Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel a phob math o ddarpariaeth yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwylio darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu wneud iawn megis corff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu'r Swyddfa Dyfarnwyr AU Annibynnol (nid rhestr gynhwysfawr mo hon).

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro ac ymateb i ddata ansawdd a pherfformiad sy'n gysylltiedig ag addysgu, dysgu ac asesu.
- Sicrhau cyllideb ddigonol ar gyfer gweithgareddau datblygiad proffesiynol.

- Sicrhau cyllideb ddigonol ar gyfer adnoddau sy'n cefnogi gweithgareddau addysgu, dysgu ac asesu.

Mae'r staff Ansawdd Uwch yn gyfrifol am:

- Gynnal pa mor gyfredol yw'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth briodol i staff i sicrhau y gallant ddilyn y polisi.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail i arferion a'u gwella.

Mae'r holl Staff Addysgu, Asesu a Chefnogi yn gyfrifol am:

- Ymddwyn yn unol â'r Polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol perthnasol a manteisio ar y cyfleoedd sy'n agored iddynt i gymryd rhan mewn ymchwil weithredol, rhannu arferion da ac ymarfer myfyriol.

Mae pob dysgwr yn gyfrifol am:

- Fynychu digwyddiadau gwybodaeth yn ystod y cyfnod sefydlu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'i oblygiadau iddynt hwy.
- Ymddwyn yn unol â'r polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig i sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd astudio y mae'r Grŵp yn eu rhoi iddynt.
- Darparu adborth ar agweddau ar addysgu, dysgu ac asesu ar gais.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

- Safonau proffesiynol ar gyfer athrawon addysg bellach ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru
- Fframwaith Arolygu Cyffredin
- Canllaw Cyngor y Gweithlu Addysg
- Safonau Digidol ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod law yn llaw â'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio ym mywyd bob dydd.
Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Cyfeiriadau

Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill:

Polisi Ansawdd
Polisi Bwlio ac Aflonyddu
Polisi Diogelu
Polisi Datblygiad Staff
Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Polisi Llês-ladrad
Polisi Cwynion a Chanmoliaeth

Gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd Mewnol
Gweithdrefnau Bwlio ac Aflonyddu
Gweithdrefnau Diogelu
Gweithdrefnau Llês-ladrad
Gweithdrefnau Arsylwi Gwersi/Cyfoedion
Gweithdrefnau Cwynion a Chanmoliaeth

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnrwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Atodiad 1 - 5 Agwedd Sylfaenol ar Ddysgu Effeithiol

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro
Apprenticeships
Prentisiaethau

act als

5 basics of effective learning
elfen sylfaenol dysgu effeithiol

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Every session should include these 5 elements to support effective learning.
Dylai pob sesiwn gynnwys y 5 elfen hyn i gefnogi dysgu effeithiol.

1 CLEAR OBJECTIVES BASED ON LEARNER NEEDS
AMCANION CLIR AR SAIL ANGHENION DYSGWYR

Use all the information available to you in the group profile. Consider differentiation and personal progress linked to learners starting point and targets.

Defnyddiwch yr holl wybodaeth sydd ar gael i chi yn y proffil grŵp. Rhowch ystyriaeth i wahaniaethu a chynnydd personol sy'n gysylltiedig â man cychwyn a thargedau dysgwyr.

2 CHECK IN
TANIO'R MEDDWL

Engage learners from the beginning in a starter activity, assessing prior knowledge.

Ymgysylltwch â'r dysgwyr o'r cychwyn cyntaf mewn gweithgaredd cychwynnol, gan asesu eu gwybodaeth flaenorol.

3 ACTIVE AND COLLABORATIVE LEARNING
DYSGU GWEITHREDOL A DYSGU CYDWEITHREDOL

Involve your learners in work-based projects which enable them to learn through doing and work collaboratively. Maximise blended learning and flipped learning.

Ymglymwch eich dysgwyr mewn prosiectau ar sail gwaith sy'n eu galluogi i ddysgu trwy wneud a gweithio ar y cyd. Manteisiwch yn llawn ar ddysgu cyfunol a dysgu gwrthdro.

4 DEVELOP SKILLS
DATBLYGU SGILIAU

Ensure your lesson develops employability, digital literacy, literacy, numeracy and Welsh language skills where appropriate.

Sicrhewch fod eich gwers yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd, llythrennedd digidol, llythrennedd, rhifedd a sgiliau laith Gymraeg lle bo hynny'n briodol.

5 ASSESSMENT FOR LEARNING/CHECK OUT
ASESU AR GYFER DYSGU /MYFYRIO

Include assessment for learning. Allow learners to reflect on their progress from their starting points.

Cofiwch gynnwys asesu ar gyfer dysgu. Caniatewch i'r dysgwyr fyfyrio ar eu cynnydd o'u mannau cychwyn.

act als

Use the 5 Minute Lesson Plan – access via your intranet.

Defnyddiwch y Cynllun Gwers 5 Munud – mynediad trwy eich mewnrhwyd

Rhif Adolygu:	1
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2020
Dyddiad Adolygu Newydd:	Gorffennaf 2020

Dyddiad cymeradwyo:	**7 Gorffennaf 2020**
Cymeradwywyd Gan:	**Y Prif Fwrdd**
Dyddiad Adolygu Nesaf:	**Gorffennaf 2022**

Rheolwr Atebol:	**Deon Gwella Ansawdd**
Arweinydd Gweithredol:	**Dirprwy Bennaeth**
Hygyrch i Fyfyrwyr:	**Ydy**

Rhif Adolygu:	1
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2020
Dyddiad Adolygu Newydd:	Gorffennaf 2020